



GWYDDONIAETH BLWYDDYN 3-4 Cylch A – Uned 1

Y corff dynol

Richard Watkins, GwE
richardwatkins@gwegogledd.cymru
@DrRWatkins

YSTOD

Rhyng-ddibyniaeth organebau

1. enwau, lleoliad, gweithred a maint cymharol y prif organau dynol – **ysgerbwd a dannedd**

GEIRFA ALLWEDDOL

ysgerbwd
penglog
asennau
asgwrn cefn
calon
ysgyfaint
ymennydd
cilddant/dant llygad/blaen ddant
pydru
amddiffyn/cynnal
**cyfateb
tabl
siart bar
echelinau**

Datblygu myfyrio
(Cynllunio - datblygu
- myfyrio i'w
ymgorffori yn y
gweithgareddau)



FfLIRh – Prif linyddau Rhifedd*

Llinyn:

Datblygu ymresymu rhifyddol

Elfennau:

Adnabod prosesau a chysylltiadau

Cynrychioli a chyfathrebu

Adolygu

Llinyn:

Defnyddio sgiliau data

Elfennau:

Casglu a chofnodi data

Cyflwyno a dadansoddi data

Dehongli canlyniadau

* Cyfeirio at y Fframwaith Rhifedd am fanylion ynghylch y sgiliau penodol sydd o fewn pob elfen .

FfLIRh – cyfleoedd Llythrennedd (ysgrifennu)

Elfen: Trefnu syniadau a gwybodaeth
Ysgrifennu'n gywir

Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth, rhoi
cyfarwyddiadau ac esbonio

Datblygu TG



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r
sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

Y Cwricwlwm Cymreig



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i
ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

Addysg bersonol a chymdeithasol



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i
ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

Gwyddoniaeth – Cynllunio hanner tymor

Grŵp Blwyddyn	3/4	Tymor	Cylch A – Uned 1	Teitl yr Uned	Y Corff Dynol
Ystod: Cyd-ddibyniaeth organebau					
1. enwau, lleoliad, gweithred a maint cymharol y prif organau dynol					
Dolenni Traws Cwricwlaidd:					
Cyfleoedd i Asesu	Cyfleoedd i Asesu			Cyfleoedd i Asesu	Cyfleoedd i Asesu
<p>CYFATHREBU Cyfathrebu'n glir gan ddefnyddio iaith lfar ac ysgrifennu</p> <p>CYNLLUNIO <i>Gwneud cymariaethau a nodi tueddiadau neu batrymau</i></p> <p>MYFYRIO Awgrymu sut y gellir gwella ar y dull</p>	<p>1. Y Cwestiwn Mawr: Beth ydych yn ei wybod am: Y Corff Dynol?</p> <p>Cyflwyniad i'r pwnc a thrafodaeth ynglŷn â'r hyn mae disgyblion yn ei wybod am y corff dynol. Dangos diagram syml o ysgerbwdd dynol i'r grŵp a'u herio i labelu'r cydrannau gan ddefnyddio labeli gludiog. Faint maent yn ei wybod eisoes? Neu herio disgyblion i dynnu braslun o'u syniadau eu hunain am yr ysgerbwdd a lleoliad y prif organau yn y corff.</p> <p>Cofnodi asesiad diagnostig – map meddwl, grid KWL (Gwybod, Am wybod, Dysgwyd) neu boster syniadau ac ati.</p> <p>Rhoi amrywiaeth o luniau ysgerbyddau gwahanol anifeiliaid i'r grwpiau. A allan nhw eu dosbarthu i grwpiau yn ôl gwahanol feini prawf?</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Dosbarthu a chymharu. Gweithgareddau ar y corff dynol: GCaD CA2 Gwyddoniaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Gofyn i ddisgyblion dddosbarthu yn ôl eu syniadau eu hunain. A allan nhw gyfiawnhau'r dosbarthiadau? A allan nhw ailddosbarthu? A ydyn nhw'n gallu defnyddio amrywiaeth o strategaethau dosbarthu (diagramau Venn a Carroll)? A yw nifer yr asennau'r un peth bob tro mewn gwahanol luniau o ysgerbyddau? Oes gan anifeiliaid cyflymach goesau hirach bob tro? <p>Ymarfer y sgil – Dosbarthu a chymharu.</p> <ul style="list-style-type: none"> Herio disgyblion i ddewis un o'r cwestiynau blaenorol i'w archwilio e.e. oes gan bob anifail yr un nifer o asennau? Oes gan ddynion/epaod/mwncïod yr un nifer o asennau? Gosod y darganfyddiadau mewn tabl – ystyried adeiladau siart bar. 			<p>http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/human_body/eng/index.html</p> <p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</p>	<p>Defnyddiwch eich strategaeth / offer diagnostig dewisol chi</p> <p>A all disgyblion drefnu eu canfyddiadau a'u harddangos mewn fformat penodol? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion drefnu eu canfyddiadau a defnyddio geirfa wyddonol berthnasol? (Lefel 4)</p> <p><i>A all disgyblion adnabod patrymau a thueddiadau syml? (Lefel 3)</i></p>

<p>CYFATHREBU <i>Chwilio am wybodaeth wyddonol berthnasol</i></p> <p>CYNLLUNIO Cynllunio dull/agwedd</p> <p>DATBLYGU Ffurio barnau ystyriol a gwneud penderfyniadau gwybodus</p> <p>MYFYRIO Disgrifio sut maent wedi dysgu</p>	<p>2. Y Cwestiwn Mawr: Ydych chi'n adnabod y prif organau yn eich corff?</p> <p>Adolygu syniadau disgyblion am yr organau yn y Corff Dynol.</p> <p>Cyflwyno'r sgil - Chwilio am wybodaeth wyddonol</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio gweithgareddau rhyngweithiol oddi ar ddolenni gwe i wneud diagnosis o syniadau disgyblion. Pa organau maent yn gyfarwydd â nhw eisoes? Herio disgyblion i wneud braslun o leoliad y prif organau. Gofynnwch iddynt ychwanegu asesiad goleuadau traffig ger pob organ i weld pa mor hyderus ydynt yn gosod yr organ. Cyflwyno detholiad o lyfrau, gwefannau ac ati a model nodweddion allweddol prawf feithiol. Model sut i gael gwybodaeth am organ ddewisol – cynnwys, mynegai ac ati. <p>Ymarfer y sgil - Chwilio am wybodaeth wyddonol</p> <ul style="list-style-type: none"> Disgyblion i chwilio a chofnodi canfyddiadau. Helpu disgyblion i benderfynu ar y dull mwyaf priodol i drosglwyddo eu syniadau e.e. poster syniadau neu gyflwyniad llafar ac ati Ystyried cynhyrchu ffeil feithiau yn cynnwys syniadau disgyblion a'r wybodaeth maent wedi ei chasglu. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth Math testun: adroddiad heb fod yn nhrefn amser</p>	<p>http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/science/cripsat/human_body/eng/index.html</p> <p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</p> <p>Model Velcro o'r corff a'r organau Model ysgerbwdd</p>	<p>A all disgyblion awgrymu ble i ddod o hyd i wybodaeth? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion drefnu eu canfyddiadau a'u harddangos mewn fformat penodol? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion drefnu eu canfyddiadau a defnyddio geirfa wyddonol berthnasol? (Lefel 4)</p>
<p>CYNLLUNIO Cynllunio'r broses a'r dull i'w defnyddio</p> <p>Cynllunio'r arsylwadau a'r mesuriadau i'w cymryd</p> <p>DATBLYGU <i>Gwneud arsylwadau gofalus a mesuriadau cywir</i></p> <p><i>Gwneud cymariaethau a nodi patrymau mewn canfyddiadau data</i></p> <p>MYFYRIO Awgrymu sut gellir gwella ar y dull</p>	<p>3. Y Cwestiwn Mawr: Sut mae ein hysgerbydau'n wahanol?</p> <p>Trafodwch yr amrywiaeth mewn taldra yn y dosbarth a sut mae hyn yn gysylltiedig ag oed, gwryw/benyw ac ati.</p> <ul style="list-style-type: none"> Oes gan bobl dalach freichiau hirach? Oes coesau hirach gan y disgyblion hyn? <p>Cyflwyno'r sgil – Gwneud arsylwadau gofalus.</p> <ul style="list-style-type: none"> Herio disgyblion i ddewis dimensiynau corff i'w mesur. Adolygu offer syml a mesuriadau safonol. Sut ydym yn mesur ffurfiau lletchwith e.e. penglog, cylchedd braich, hyd trwyn ac ati? Ailedrych ar ddefnyddio tabl fel cyfrwng cofnodi canfyddiadau. <p>Ymarfer y sgil – Gwneud arsylwadau gofalus.</p> <ul style="list-style-type: none"> Herio disgyblion i fesur a chofnodi dimensiynau. Annog disgyblion i wirio mesuriadau fel cyflwyniad i'r cysyniad o ddibynadwyedd Beth yw eu canfyddiadau? Oes gan bob bachgen freichiau, coesau, pennau hirach ac ati? Ystyriwch greu siart bariau i gyfathrebu canfyddiadau. A all disgyblion disgrifio patrymau a thueddiadau syml yn eu canfyddiadau? <p>Ailedrych ar brif weithredoedd yr ysgerbwdd: cynnal, amddiffyn a galluogi symudedd</p> <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</p> <p>Model Velcro o'r corff a'r organau Model ysgerbwdd</p>	<p>A all disgyblion gynllunio gydag elfen o annibyniaeth? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion fesur gan ddefnyddio offer syml? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion ddilyn cyfres syml o gyfarwyddiadau i gasglu canfyddiadau? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion wneud penderfyniadau drwy bwysu a mesur tystiolaeth? (Lefel 3)</p>

<p>CYFATHREBU Defnyddio geirfa wyddonol</p> <p>CYNLLUNIO Cynllunio'r broses a'r dull i'w ddefnyddio</p> <p>DATBLYGU <i>Gwneud arsylwadau gofalus</i></p> <p><i>Gwneud cymariaethau</i></p>	<p>4. Y Cwestiwn Mawr: Beth ydych chi'n gwybod am ddannedd?</p> <p>Galluogi disgyblion i archwilio detholiad o luniau o benglogau anifeiliaid gyda'u dannedd yn amlwg.</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Dosbarthu a gwneud cymariaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Oes gan bob penglog yr un nifer a math o ddannedd? Trafodwch sut i dddosbarthu penglogau anifeiliaid yn ôl nifer, maint a siâp dannedd? A allan nhw ddefnyddio amrywiaeth o dddosbarthiadau a strategaethau gwneud cymariaethau (diagramau Venn a Carroll)? <p>Ymarfer y sgil – Dosbarthu a gwneud cymariaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> Gorffen dosbarthu a gwneud y gweithgaredd cymariaethau ac adolygu'r strategaethau a ddefnyddiwyd. Sut mae'r grwpiau'n gysylltiedig â ffordd o fyw a/neu ddeiet? Ydy unrhyw un o'r grwpiau'n ystyried llysysyddion a chigysyddion? Ystyried herio'r disgyblion i rifo a chofnodi nifer y dannedd ym mhenglog gwahanol anifeiliaid. Rhwch y canlyniadau mewn tabl a chreu siart bar. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>SCYA Gadewch i ni feddwl drwy Wyddoniaeth</p> <p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</p> <p>Model mawr o ddannedd</p> <p>Lluniau o ddannedd</p> <p>Lluniau o wahanol fathau o anifeiliaid</p> <p>Penglogau'n dangos dannedd</p>	<p>A all disgyblion gynllunio gyda chymorth (Lefel 3)</p> <p><i>A all disgyblion ddilyn cyfres syml o gyfarwyddiadau i gasglu canfyddiadau? (Lefel 3)</i></p> <p>A all disgyblion gysylltu canlyniadau â meini prawf llwyddiant? (Lefel 3)</p>
<p>CYFATHREBU <i>Cyfathrebu gan ddefnyddio tablau a siart bariau</i></p> <p>DATBLYGU <i>Gwneud arsylwadau gofalus gan ddefnyddio offer syml</i></p> <p>MYFYRIO Awgrymu sut gellir gwella ar y dull</p>	<p>5. Y Cwestiwn Mawr: Pam mae ein dannedd o wahanol siapiau a maint?</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Gwneud arsylwadau gofalus gan ddefnyddio offer syml.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gadael i ddisgyblion archwilio dannedd eu partneriaid. Gofyn i ddisgyblion am gwestiynau a chofnodi eu syniadau. Oes gan bob un ohonom yr un nifer o ddannedd? Cyflwyno chwyddwydrau a microsgopau digidol (TT Easiscope) i helpu disgyblion i wneud arsylwadau agosach. Helpu disgyblion i gynllunio tabl syml i gofnodi eu canfyddiadau. <p>Ymarfer y sgil – Gwneud arsylwadau gofalus gan ddefnyddio offer syml.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau arolwg/arsylw o ddannedd yn y dosbarth. Cofnodi canfyddiadau ar dabl. Tynnu lluniau gyda microsgop digidol. Dosbarthu siapiau dannedd – beth mae disgyblion yn sylwi arno? Cyflwyno geirfa allweddol – blaen ddant, dant llygad, cildant. Beth yw prif swyddogaeth pob dant – gwnewch gyfatebiad â siswrn, torrwr cnau ac ati Sut mae dannedd dynol yn cymharu â dannedd anifeiliaid eraill gan gynnwys primat? Gadael i ddisgyblion ganfod gwybodaeth am strwythur dant. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>http://news.bbc.co.uk/cbbcnews/hi/find_out/guides/tech/dannedd/newsid_3830000/3830561.stm</p> <p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</p> <p>http://www.arkive.org/</p> <p>Model mawr o ddannedd</p> <p>Chwyddwydrau</p> <p>Microsgop digidol (TTS Easiscope)</p>	<p><i>A all disgyblion ddechrau trefnu eu canfyddiadau, gan gynnwys tablau a siart bariau syml? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A all disgyblion ddilyn cyfres syml o gyfarwyddiadau i gasglu canfyddiadau? (Lefel 3)</i></p> <p>A all disgyblion adnabod patrymau syml? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion awgrymu sut y gellir gwella'r dull? (Lefel 3)</p>

<p>CYFATHREBU <i>Defnyddio tablau a siartiau a geirfa wyddonol berthnasol</i></p> <p>CYNLLUNIO <i>Defnyddio gwybodaeth flaenorol i wneud rhagdybiaethau</i></p> <p>DATBLYGU <i>Gwneud cymariaethau a nodi tueddiadau neu batrymau</i></p>	<p>6. Y Cwestiwn Mawr: Oes gan bawb yr un nifer o ddannedd?</p> <p>Ailedrych ar y gwaith ar ddannedd. Beth yw syniadau disgyblion o ran sut mae nifer y dannedd sydd gan ddynoliaeth yn wahanol? Helpu disgyblion i ofyn cwestiynau ar gyfer archwilio, er enghraifft: - Oes gan ddisgyblion hŷn fwy o ddannedd na ddisgyblion iau? - Oes gan ferched fwy o ddannedd na bechgyn mewn pob achos?</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Gwneud rhagdybiaethau gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw rhagdybiaethau disgyblion? Pam maent yn credu hynny? • Beth sy'n gwneud rhagdybiaeth dda? • Trafodwch sut gallai disgyblion drefnu casglu digon o ddata i ateb y cwestiwn. • Model templed cynllunio a thrafod y camau sydd eu hangen i weithredu'r dasg. <p>Ymarfer y sgil – Defnyddio tablau a siartiau i gofnodi'r canfyddiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgyblion yn cynnal archwiliad ac yn cofnodi canfyddiadau mewn tabl syml. • Adolygu'r defnydd o gyfateb os oes angen. • Sut mae'r tablau'n cael eu trefnu? • Trafodwch y canfyddiadau a helpwch ddisgyblion i nodi patrymau a dod i gasgliadau. <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio Math testun: adroddiad gwyddonol</p>	<p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</p> <p>Cartwnau Cysyniadau</p> <p>Byrddau cynllunio rhyngweithiol</p>	<p><i>A all disgyblion ddilyn cyfres syml o gyfarwyddiadau i gasglu canfyddiadau? (Lefel 3)</i></p> <p><i>A all disgyblion wneud rhagdybiaethau gan ddefnyddio syniadau pob dydd? (Lefel 3)</i></p> <p>A all disgyblion awgrymu sut y gellir gwella'r dull? (Lefel 3)</p>
<p>CYFATHREBU <i>Defnyddio tablau a siartiau a geirfa wyddonol berthnasol</i></p> <p>DATBLYGU <i>Gwneud cymariaethau a nodi a disgrifio patrymau mewn data</i></p> <p>MYFYRIO Awgrymu sut gellir gwella ar y dull</p>	<p>7. Y Cwestiwn Mawr: Oes gan bawb yr un nifer o ddannedd? Parhad</p> <p>Ymarfer y sgil – Defnyddio tablau a siartiau i gofnodi canfyddiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Model siart bar dosbarth cyfan i gyfathrebu canfyddiadau. • Herio grwpiau i adeiladu eu siart bar eu hunain gan ddefnyddio eu canfyddiadau. • Beth mae eu canfyddiadau'n dweud wrthynt? • Helpu disgyblion i adnabod patrymau a thueddiadau syml yn eu canfyddiadau. • Disgyblion yn cyfnewid siart bariu am hunan asesiad neu asesiad cyfoedion. • Nodi 2 seren a dymuniad am waith ei gilydd. 	<p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</p>	<p><i>A all disgyblion ddechrau trefnu eu canfyddiadau, gan gynnwys tablau a siart bariu syml? (Lefel 3)</i></p> <p>A all disgyblion adnabod patrymau syml? (Lefel 3)</p> <p>A all disgyblion awgrymu sut y gellir gwella'r dull? (Lefel 3)</p>

<p>CYNLLUNIO Canfod gwybodaeth a syniadau perthnasol</p> <p><i>Gwybod am beryglon a risgiau</i></p> <p>DATBLYGU <i>Defnyddio offer yn gywir ac yn ddiogel</i></p> <p>MYFYRIO Cysylltwch y dysgu gyda sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol a thu allan.</p>	<p>8. Y Cwestiwn Mawr: Sut ydym yn gwybod bod rhai diodydd yn niweidio ein dannedd?</p> <p>Cymerwch syniadau gan ddisgyblion o ran pa fwydydd/diodydd a allai niweidio ein dannedd. Heriwch y disgyblion i roi trefn ar y bwydydd/diodydd yn ôl y niwed posibl y gallant ei achosi. Trafodwch sut mae deiet llawn siwgr yn cyfrannu at bydru dannedd.</p> <p>Cyflwyno'r sgil – Gwybod am beryglon a risgiau a defnyddio offer yn ofalus</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut gallwn ddyfeisio prawf i ganfod pa ddiodydd sy'n niweidio dannedd? Model dulliau posibl i archwilio'r niwed mae diodydd swigod yn ei achosi i ddannedd. Pa awgrymiadau sydd gan ddisgyblion? A allwn ni ddefnyddio dannedd go iawn? Neu oes angen i ni fodelu hwn gan ddefnyddio deunydd arall? Awgrymwch fod disgyblion yn defnyddio naill ai sialc neu blisgyn wy ar gyfer model o ddant. <p>Ymarfer y sgil - Gwybod am beryglon a risgiau a defnyddio offer yn ofalus</p> <ul style="list-style-type: none"> Herio disgyblion i ddewis offer priodol er mwyn cynnal archwiliad/arsylw. Atgoffa disgyblion am beryglon diogelwch (blasu hylif a thrin a thrafod plisgyn wyau). <p>Cofnodi arsylwadau dros gyfnod o amser. A allwn ni wneud siart bar o'r canfyddiadau hyn? Os na, pam felly? (Dim ond cofnodion ansoddol.)</p> <p>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac esbonio Math testun: adroddiad heb fod yn nhrefn amser</p>	<p>http://www.echalk.co.uk/</p> <p>http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</p> <p>http://www.healthydannedd.org/</p> <p>Model mawr o ddannedd Past dannedd Brwshys dannedd ac ati Plisgyn wyau, sialc Diodydd swigod, llaeth, dŵr Silindrau mesur</p>	<p><i>A all disgyblion gymryd mesuriadau gan ddefnyddio offer syml? (Lefel 3)</i></p> <p>A all disgyblion ddweud Beth maent wedi ei ganfod drwy eu gwaith? (Lefel 3)</p>
<p>CYFATHREBU <i>Cyfathrebu'n glir drwy iaith lafar</i></p> <p>DATBLYGU <i>Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio</i></p>	<p>9. Y Cwestiwn Mawr: Ydych chi'n gwybod sut i edrych ar ôl eich dannedd?</p> <p>Gwahoddwch nyrs yr ysgol i annerch y disgyblion ar bwysigrwydd glanhau dannedd. Efallai bod disgyblion am wneud rhestr o gwestiynau i'w gofyn i nyrs yr ysgol. Ystyriwch ofyn i ddisgyblion gyflwyno'r syniadau fel rhan o wasanaeth dosbarth neu ysgol.</p> <p>Creu darn o farddoniaeth neu gân fer i atgyfnerthu rhai agweddau o hylendid y geg.</p>	<p>http://www.healthydannedd.org/</p> <p>Model mawr o ddannedd Past dannedd Brwshys dannedd ac ati</p>	<p><i>A all disgyblion esbonio gan ddefnyddio rhai syniadau a geirfa wyddonol? (Lefel 4)</i></p>
<p>MYFYRIO Disgrifio sut maent wedi dysgu, a nodi'r ffyrdd a weithiodd orau.</p> <p><i>Cysylltwch y dysgu gyda sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol a thu allan.</i></p>	<p>Ailedrych ar asesiad diagnostig cychwynnol. A all disgyblion arddangos dealltwriaeth ar ddiwedd pwnc a thrafod y sgiliau newydd a ddysgwyd a/neu a roddwyd ar waith?</p>	<p>Defnyddio'r strategaeth Asesu ar gyfer Dysgu ddewisol</p>	<p><i>A all disgyblion gysylltu eu dysgu â sefyllfaoedd cyfarwydd? (Lefel 3)</i></p>
<p>Gwerthusiad</p>			